

TROSOLWG / CRYNODEB O'N



Cynllun Datblygu Ysgol : 2023-2026

I'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol

Ein Cynllun Datblygu Ysgol

Bob blwyddyn academaidd, rydym yn creu ein Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae hwn yn gynllun sy'n nodi'r meysydd y byddwn yn gweithio arnynt fel ysgol dros y flwyddyn academaidd.

O fis Medi 2022, rhaid i bob corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol canlynol wrth osod eu blaenoriaethau gwella:

- ✓ gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- ✓ lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrrhaeddiad dysgwyr

Mae ein CDY wedi ei rannu i flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod o ystod o ffynonellau gan gynnwys hunan-werthuso; dadansoddi data; adborth o ffynonellau allanol a monitro mewnol. Ysgrifennwyd y cynllun mewn cydweithrediad â staff, llywodraethwyr, plant a rhieni. Ar gyfer pob blaenoriaeth, cynllunnir nifer o gamau gweithredu trwy gydol y flwyddyn. Mae'n ddogfen gweithredol, ac er na fydd newidiadau mawr i'r cynllun, wrth i ni roi'r plant wrth galon popeth a wnawn, efallai y bydd newidiadau'n digwydd i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion ein disgyblion.

Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, mae'r ysgol yn cyhoeddi'r copi cryno hon ar ein gwefan. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys :

1. crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
2. blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol, camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny; a cherrig milltir perthnasol
*gan gynnwys cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (gan gynnwys cymorth a gaiff ei roi neu ei froceru gan gonsortia rhanbarthol)
3. adroddiad ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol

Yn y modd hwn, bydd rhieni, gofawyr a dysgwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth safonol sydd ar gael i bob ysgol. Bydd hyn yn cefnogi tryloywder drwy roi gwybodaeth reolaidd a chyson i rieni a gofawyr a'r gymuned ehangach am yr ysgol a'i datblygiad.

*Mae'r uchod yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

Adran 1 : Crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu

3 maes trosfwaol ar gyfer hunanwerthuso :	Beth ydym ni'n falch ohono yma yn Ysgol Trimsaran Pethau mae'r ysgol yn eu gwneud yn dda. Nodweddiion a/neu weithgareddau sy'n unigryw/arloesol i'r ysgol. Agweddau rydyn ni eisiau eu rhannu a'u dathlu.	Beth allwn ni ei wneud yn well yma yn Ysgol Trimsaran Meysydd lle gallai'r ysgol fod yn gweithio'n llawer mwy effeithiol, neu bethau y gallai'r ysgol fod yn eu gwneud yn well.
Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	<p>1. Gweledigaeth Strategol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y pennaeth weledigaeth gref a phriodol iawn ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws ar sicrhau'r addysg orau bosibl i ddisgyblion, er gwaethaf eu heriau personol. • Mae ymrwymiad yr ysgol i welliant parhaus yn amlwg, gyda disgybliaid uchel ar eu cyfer eu hunain ac eraill. • Mae arweinwyr ysgol ar bob lefel yn cymryd rhan mewn cynllunio strategol, gan ystyried yn ofalus effaith eu camau ar ddisgyblion. <p>2. Arweinyddiaeth ar draws yr Ysgol Gyfan (gan gynnwys Llywodraethwyr)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn buddsoddi'n llwyddiannus mewn datblygu arweinwyr y dyfodol. • Mae'r pennaeth yn dosbarthu cyfrifoldebau yn ddoeth ac yn sicrhau bod y staff yn atebol. • Mae gan uwch-arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth gref o'u meysydd, gan nodi cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn strategol. • Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan weithredol, yn cyflawni eu dyletswyddau statudol ac yn gweithredu fel cyfoedion beirniadol gwerthfawr drwy werthuso'n ofalus. <p>3. Effeithiolrwydd Hunan arfarnu a Phrosesau Gwella</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol systemau hunan arfarnu sydd wedi'u sefydlu'n gadarn ac sy'n hynod effeithiol, ac sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid mewn trafodaethau gonest. • Mae'r prosesau hyn yn casglu data uniongyrchol a dadansoddol, gan arwain at adroddiadau manwl ac addysgiadol sy'n llywio datblygiad yr ysgol. • Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i brif flaenoriaethau cenedlaethol wrth hunan arfarnu ac mae hefyd yn ystyried y ddarpariaeth ehangach. <p>4. Ymroddiad i Sefydliad sy'n Dysgu a Datblygiad Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn sicrhau bod holl staff yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel ffocws prosiect SLO, gwella'r ddarpariaeth i gwrdd ag anghenion disgyblion bregus drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr. • Cryfhau'r prosesau rheoli perfformiad ar gyfer y staff cymorth.

	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyrsiau, ymweliadau arfer dda, rhannu gwybodaeth yn fewnol, ac mae ymchwil fewnol werthfawr yn cael ei datblygu. • O ganlyniad, mae sgiliau'r staff yn datblygu'n barhaus, gan gynnal darpariaeth effeithiol i'r mwyafrif o ddysgwyr. 	
Cwricwlwm, dysgu ac addysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf o'u man cychwyn isel. • Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r sgiliau iaith a chyfathrebu y mae disgyblion yn eu datblygu'n amlwg. Mae cynnydd yr un mor effeithiol ym mhob grŵp dysgwyr. • Mae sgiliau rhifedd yn datblygu'n effeithiol, ac mae'r staff yn darparu cyfleoedd creadigol a deniadol i ddisgyblion gymhwyso'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm. • Mae'r amgylchedd dosbarth ar draws yr ysgol wedi'i ddatblygu'n effeithiol, gan gefnogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac ymrwymedig. • Mae disgyblion yn cael ystod eang o gyfleoedd i gymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd yn bwrpasol o fewn y cwricwlwm. • Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol drwy ddefnyddio darparwyr allanol ac ymweliadau i gyrchfannau perthnasol a phwrpasol. • Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu, ac maent yn addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion. • Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. • Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r amgylchedd dysgu awyr agored wedi'i ddatblygu'n effeithiol ac yn ymgysylltu'n dda â dysgwyr. • Er bod sgiliau llafar Cymraeg disgyblion heb eu datblygu'n ddigonol, mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ac effeithiol i ddatblygu gramadeg a geirfa'r Gymraeg. • Mae gan yr ysgol brosesau clir ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig, sy'n cael eu cymhwyso'n effeithiol ac yn gyson ar draws yr ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddatblygu cwricwlwm dilys ac ymholgar ymhellach, er mwyn hyrwyddo'r cynnydd gorau i bob dysgwr. • Datblygu pedagogeg ym maes mathemateg i sicrhau defnydd cyson o ddulliau DDH (Diriaethol, Delweddol, Haniaethol) ar draws yr ysgol er mwyn gwella dealltwriaeth gysyniadol y disgyblion. • Parhau i wella sgiliau dealltwriaeth a darllen uwch y disgyblion hynaf yn y ddwy iaith, yn ogystal â'u mwynhad o ddarllen. • Parhau i wella data llythrennedd. • Cryfhau ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgol.
Lles, tegwch a chynhwysiant:	<ul style="list-style-type: none"> • Mae awyrgylch croesawgar a chyfeillgar yn yr ysgol, sydd wedi cael ei gydnabod gan ymwelwyr. • Mae perthynas gref rhwng y staff a'r disgyblion. • Mae'r ysgol wedi cwblhau ei hunan-arfarnu amddiffyn plant ac wedi nodi camau gweithredu priodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i wella'r cynnydd cadarn diweddar yn lefelau presenoldeb yr ysgol.

- Mae'r pennaeth yn cydweithio a'r adran cynnal a chadw i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a risgiau, gan weithredu asesiadau risg i reoli sefyllfaoedd yn effeithiol (e.e. staff yn goruchwyllo y wal gefn).
- Mae'r staff a bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- Mae arferion diogelu yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, heb fod unrhyw bryderon wedi'u codi.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu dull ysgol-gyfan o ran iechyd meddwl a lles.
- Mae'r ysgol wedi cynnal hunan-arfarnu gonest ac yn cydweithio â swyddogion Ysgolion Iach i wella'r ddarpariaeth ymhellach.
- Defnyddir amrywiaeth o holiaduron ac adnoddau perthnasol yn ddoeth i lywio'r gefnogaeth lles.
- Mae ffocws cryf ar les pawb, gyda'r arweinwyr yn osgoi rhoi pwysau di-angen ar y staff.
- Mae'r staff yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn ardal o amddifadedd uchel ac yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol.
- Mae gan yr ysgol system gadarn i nodi a chefnogi disgyblion bregus drwy ei Phroffil Asesu Bregusrwydd (VAP) ac mae'n darparu ymyriadau wedi'u targedu.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ar fentrau megis Big Box Food a'r prosiect Cnoi Cul, ac yn gweithio'n bwrpasol gyda sefydliadau amrywiol i gefnogi teuluoedd mewn angen, e.e. Dechrau'n Deg, Cook 24, Tîm o Amgylch y Teulu a Chymdeithas Ieuenctid a Chymuned Abertawe (CYCA).
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda theuluoedd, gan nodi eu hanghenion ac mae'n addasu'r dulliau cyfathrebu i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Mae'r ysgol yn cydweithio â busnesau i gefnogi anghenion sylfaenol teuluoedd, e.e. peiriannau golchi, gwelyau ac ati.
- Mae'r ysgol wedi datblygu system gynhwysol raddol lle mae Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cael eu hystyried yn gyfrifoldeb i bawb.
- Mae lles yn ganolog i waith a darpariaeth yr ysgol, ac mae dulliau amrywiol ac effeithiol yn cael eu defnyddio i gefnogi lles dysgwyr.
- Mae gan yr ysgol systemau cadarn i herio presenoldeb isel, sydd wedi cael effaith gadarnhaol dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Adran 2 : Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol lefel uchel: 2025-2026



Blaenoriaeth 1 :Darparu her i'r holl ddisgyblion trwy wella'r addysgu a rhoi adborth cyson ac effeithiol



Blaenoriaeth 2 :Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg



Blaenoriaeth 3 :Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion



Blaenoriaeth 4 : I wreiddio systemau asesu yn effeithiol ar gyfer cynllunio a myfyrio ar gynnydd unigolion a grwpiau er mwyn llywio darpariaeth yr ysgol.



Blaenoriaeth 5 :Fel ffocws prosiect SSD, gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed drwy fynd i'r afael ag effaith tloedi ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Section 2.1 Camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau CDY a cherrig milltir perthnasol

Blaenoriaeth 1 : Darparu her i'r holl ddisgyblion trwy wella'r addysgu a rhoi adborth cyson ac effeithiol			Blaenoriaeth 2 : Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg		
Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant	Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant
<p>Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant Partneriaeth- adborth effeithiol. Adolygu / Datblygu polisi ysgol gyfan ar gyfer adborth effeithiol – cytuno ar ddisgwyliadau clir ar gyfer marcio, adborth llafar, ac ymateb disgyblion i adborth. Cryfhau disgwyliadau a her athrawon – darparu CPL ar gynllunio cwestiynau trefn uwch, sgaffaldio, a thasgau estynedig ar gyfer dysgwyr mwy galluog. Ymwreiddio strategaethau cwestiynu medrus – staff i dreialu strategaethau AaGD newydd a rhannu arfer dda mewn cyfarfodydd staff. Eglurder wrth esbonio tasgau – athrawon i fodelu meini prawf llwyddiant yn glir, defnyddio enghreifftiau parod safonol ac annog disgyblion i hunanasesu yn erbyn y meini prawf. Cysondeb mewn adborth i ddisgyblion – cyflwyno “amser adborth a gwelliant” mewn gwersi i sicrhau bod disgyblion yn gweithredu ar gyngor ar unwaith. Cryfhau a datblygu hunan fyfyrion disgyblion – hyfforddi disgyblion i ddefnyddio meini prawf llwyddiant, asesu cyfoedion a hunan farcio i nodi camau nesaf. Monitro ffocws ar addysgu ac adborth – UDA a'r arweinydd canol i graffu ar lyfrau bob hanner tymor, teithiau dysgu, a darparu adborth adeiladol. Cymuned dysgu proffesiynol – staff i rannu enghreifftiau o adborth effeithiol a thasgau heriol yn ystod sesiynau min nos / cyfarfodydd staff. Cynnwys llywodraethwyr – llywodraethwyr i adolygu enghreifftiau o waith disgyblion ac archwilio ansawdd adborth yn ystod teithiau dysgu yn dymhorol. 			<p>Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> I gynyddu cymhelliant, hyder ac uchelgais disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth drwy roi cyfle iddynt gwrdd ag enwogion ifanc sy'n siarad Cymraeg. I gynyddu ymgysylltiad disgyblion â'r iaith Gymraeg drwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i brofi bandiau Cymraeg, cynrychiadau theatr, a digwyddiadau cymunedol. Patrwm iaith yr wythnos – recordio disgyblion yn rhannu patrymau a'u dosbarthu i rieni. Sesiwn lafar – disgyblion yn gwyllo rhaglen deledu / yn gwrando ar raglen radio o ddi-ddordeb yn Gymraeg ac yn trafod (wedi'i gysylltu â datblygiad lleferydd). Newyddion Cymraeg CA3 – disgyblion yn gwyllo rhaglen newyddion wythnosol yn Gymraeg ac yn trafod. Gwobrau iard chwarae – parhau â'r system wythnosol (tocynnau/lolipops iaith) am ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Athrawon yn annog disgyblion i ailadroddi brawddegau Saesneg yn Gymraeg i wella geirfa. Idiom yr wythnos – ei arddangos a'i hybu ar draws yr ysgol. Ymgysylltiad rhieni – hyrwyddo balchder yn y Gymraeg drwy wasanaethau dosbarth, sioeau a chyfarfodydd rhieni. Asesiadau llafar dosbarth – creu canlyniadau disgwyliedig, nodi gwendidau, a darparu tystiolaeth o gynnydd disgyblion. Mentora cyfoedion – defnyddio disgyblion Bl.5/6 mwy abl i gefnogi disgyblion iau mewn chwarae/gweithgareddau Cymraeg. Prosiect dylunio gêm – disgyblion Bl.5/6 yn dylunio gemau Cymraeg ac yn eu cyflwyno i Fl.4 ac iau. 		
<p>Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae addysgu'n symud ar gyflymder sy'n cyd-fynd ag anghenion y disgyblion ac yn cynnal lefel uchel o ymgysylltiad. Caiiff disgwyliadau a lefelau her eu cymhwyso'n gyson ar draws pob dosbarth. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynu dyfnach yn rheolaidd ac sy'n annog adalw ar ddysgu blaenorol. Mae esboniadau tasgau'n glir, gan alluogi disgyblion i weithio gyda hyder ac annibyniaeth. Mae disgyblion yn dangos ymddygiad dysgu cadarnhaol: gwrando'n ofalus, gofyn cwestiynau perthnasol, a theimlo balchder yn eu gwaith. Mae adborth yn nodi camau nesaf penodol yn gyson ac mae disgyblion yn gweithredu arnynt i wella eu gwaith. Gall disgyblion egluro beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ac maent yn dangos tystiolaeth o gynnydd parhaus dros amser. Mae monitro'n dangos bod datblygiad proffesiynol wedi arwain at fwy o gysondeb a gwell cyrhaeddiad ar draws yr ysgol. 			<p>Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn y defnydd o Gymraeg achlysurol yn ystod gwersi ac amser rhydd. Mwy o ddisgyblion yn cychwyn sgysiau yn Gymraeg heb annogaeth Mae disgyblion yn dangos amrywiaeth ehangach o batrymau brawddeg yn ystod trafodaethau dosbarth. Mae holiaduron llais disgyblion yn dangos mwy o hyder wrth drafod teimladau yn y Gymraeg. 		
Blaenoriaeth 3 : Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion			Blaenoriaeth 4 : I wreiddio systemau asesu yn effeithiol ar gyfer cynllunio a myfyrio ar gynnydd unigolion a grwpiau er mwyn llywio darpariaeth yr ysgol.		

Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant	Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant
<p>Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Dilyn blaenoriaeth 1 (Asesu) ▪ Adolygu a chryfhau mapio genres – nodi lle mae ysgrifennu estynedig yn digwydd ar draws y cwricwlwm. ▪ Adolygu samplau o waith ysgrifenedig disgyblion ar draws grwpiau blwyddyn a phynciau. ▪ Nodi materion ailadroddus (e.e. geirfa wan, strwythur brawddegau cyfyngedig, camgymeriadau sillafu/gramadeg, diffyg tystiolaeth i gefnogi syniadau). ▪ Amlygu grwpiau penodol sy'n tangyflawni mewn ysgrifennu (e.e. disgyblion difreintiedig, dysgwyr Saesneg fel ail iaith, bechgyn/merched). ▪ Casglu barn disgyblion am eu hagweddau tuag at ysgrifennu. ▪ Ymgynghori â staff am anghenion hyfforddi. ▪ Darparu DPP ar addysgu ysgrifennu'n effeithiol, gyda ffocws ar fodelu, sgaffaldio ac adborth. ▪ Asesu dechrau a diwedd genres – defnyddio asesiadau i nodi cynnydd a chamau nesaf. ▪ CC3 – strategaethau Big Write, ysgrifennu annibynnol – ffocws ar atalnodi, agoriadau, cymariaethau, ansoddeiriau; annog ysgrifennu annibynnol wythnosol. Lawnsio strategaeth datblygu geirfa (gair yr wythnos, geiriaduron pwnc-benodol). ▪ Ymyrraeth ddwys Aled Afal – CA1/2 – cefnogaeth wedi'i dargedu at ddisgyblion sydd angen mwy o ymarfer ysgrifennu; ail-ymweld â strategaethau yn enwedig ym mlwyddyn 3/4/5. ▪ Sicrhau cyfleoedd rheolaidd ar gyfer ysgrifennu estynedig yn Saesneg/Cymraeg ac mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Dylai ysgrifennu ddangos tystiolaeth glir o gynllunio, golygu ac adolygu i sicrhau dealltwriaeth. ▪ Sefydlu strategaethau cyson ar gyfer addysgu sillafu, atalnodi a gramadeg ar draws pob dosbarth. ▪ Defnyddio asesu ar gyfer dysgu (AaGD) i olrhain a thargedu camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg cyffredin. ▪ Darparu DPP ar addysgu ysgrifennu'n effeithiol, gyda ffocws ar fodelu, sgaffaldio ac adborth. ▪ Sefydlu arsylwadau cyfoedion i rannu arfer dda ar draws y ffederasiwn. 			<p>Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profion cenedlaethol – defnyddio canlyniadau i fonitro cyrhaeddiad disgyblion a llywio cynllunio ar gyfer grwpiau ymyrraeth. • Sicrhau bod arferion asesu llythrennedd yn cyfateb yn gadarn i adborth rhifedd a digidol drwy gymedroli trawsgwricwlaidd. • Cysylltu amcanion gwerthuso staff ag effaith asesiad ar gynnydd disgyblion. • Mewnbynnu data y gwaelodlin a data presennol yn y system 'Tyfu' newydd ar draws pob grŵp blwyddyn i sicrhau cywirdeb. • Hyfforddi holl staff i ddechongli a defnyddio system olrhain 'Tyfu' ar gyfer cynllunio ar lefel ystafell ddosbarth ac grwpiau ymyrraeth penodol. • Defnyddio data cynnydd a chraffu ar waith i ddarparu tystiolaeth o welliannau mewn llythrennedd, yn enwedig dyfnder a chywirdeb mewn ysgrifennu. Mesur effaith drwy: <ul style="list-style-type: none"> • Canran y disgyblion sy'n gallu egluro eu camau nesaf. • Lleihau y bylchau rhwng cynnydd llythrennedd a rhifedd. • Dystiolaeth o adborth sy'n arwain at welliant disgyblion sy'n fesuradwy gan ddisgyblion mewn llyfrau ac asesiadau. • Defnyddio TYFU i ddatblygu proffil 'Disgybl ar Ddalen' i nodi camau nesaf yn glir a chefnogi cyfarfodydd cynnydd disgyblion ffocws. • Sefydlu sesiynau cydweithredu staff rheolaidd i adolygu data, nodi tueddiadau, a chynllunio ymyriadau. 		
<p>Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cymedroli'n dangos llai o amrywiadau yn ansawdd ysgrifennu estynedig rhwng dosbarthiadau. • Mae samplau ysgrifennu'n dangos mwy o gywirdeb, trefn, a dyncwch yn y ddwy iaith. • Mae disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o ansawdd uwch gyda golygu ac ail-ddrafftio effeithiol. • Mae asesiadau diwedd blwyddyn yn dangos tebygrwydd darllen/lleferydd ac ysgrifennu estynedig. • Mae disgyblion yn defnyddio geirfa uchelgeisiol yn hyderus yn eu cyd-destun. • Mae disgyblion yn ffocysu ar, ac yn cynhyrchu ymatebion ysgrifenedig manwl ym mhob pwnc. 			<p>Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth mewn cynllunio a llyfrau yn dangos bod asesiad yn llywio'r camau nesaf ym mhob dosbarth. • Holiaduron disgyblion yn cadarnhau eu bod yn deall beth sydd angen iddynt ei wella. • Disgyblion yn gosod targedau dysgu personol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd gyda'u hathrawon. • Mae 'Tyfu' yn dangos cynnydd parhaus i unigolion a grwpiau dros amser. • Mae system 'Tyfu', wedi'i gweithredu'n llawn, gan sicrhau monitro cynnydd disgyblion sy'n gywir, yn gyson ac yn hygyrch. • Bydd y system olrhain presenoldeb, wedi'i gweithredu'n llawn, gan sicrhau monitro presenoldeb disgyblion sy'n gywir, yn gyson ac yn hygyrch ar draws pob grŵp blwyddyn a cohort erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. • Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r disgwyliadau ysgrifennu ar gyfer pob dosbarth. Mae marcio ac adborth yn herio disgyblion yn gyson i wella cywirdeb a dyfnder. 		
<p>Blaenoriaeth 5 : Fel ffocws prosiect SSD, gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed drwy fynd i'r afael ag effaith tloidi ar gyrhaeddiad dysgwyr</p>					
Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant	Gweledigaeth ac arweinyddiaeth	Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu	Lles, Tegwch a Chynhwysiant

Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud... <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant HMS- Model ymchwil effeithiol. • Athrawon i gael amser i ymchwilio a chreu cynllun gweithredu. • Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd) • Athrawon i dreialu gyda'r ystafell ddosbarth / casglu tystiolaeth / gwerthuso • Rhannu canfyddiadau / arfer dda gyda staff • Staff i dreialu yn eu hystafelloedd dosbarth ac adborth 				
Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud... <ul style="list-style-type: none"> • Mae staff wedi cael eu hyfforddi i ddatblygu'r ysgol fel sefydliad dysgu. • Mae strategaethau wedi'u datblygu ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd • Pan fydd data profion yn dangos mwy o gynnydd yn y sgoriau safonedig cyfartalog ar gyfer pob prawf. • Pan fydd staff wedi gwerthuso ac adrodd yn ôl i'r ysgol gyfan. • Profwyd yr effaith ar ddysgwyr. 				